

CYNHADLEDD GENEDLAETHOL AR GYFER YMARFERWYR UWCHRADD CYMRAEG AIL IAITH 2016

Panel Holi ac Ateb

Pwnc gorfodol / opsiynol?

C. A fydd Cymraeg Iaith Gyntaf / Ail iaith yn orfodol hyd at 16 oed? Os felly a fydd yn cael statws yn y dangosyddion perfformio CA4?

C. Pwy sydd â'r hawl i newid statws yr iaith? Mae angen i'r Gymraeg fod yn bwnc craidd.

Mater i'w godi efo Llywodraeth Cymru yw hwn.

Amser dysgu

C. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod yr ysgolion yn neilltuo amser digonol addysgu'r Gymraeg?

C. A ydy'r 120 awr yn statudol?

C. Sut mae gwneud lle ar y cwricwlwm CA4 i 120 o oriau?

C. Os yw'r Gymraeg yn gwrs llawn i bawb, a ddylai hi gael yr un nifer o wersi â phynciau opsiwn?

Argymhellir 120 awr ar gyfer paratoi ymgeiswyr yn addas ar gyfer y cymhwyster TGAU. Mater i'r canolfannau yw sicrhau bod amser digonol yn cael ei roi i'r pwnc ar amserlen.

Asesu di-haen

A fydd asesu di-haen yn gwneud i blant llai galluog deimlo fel eu bod nhw'n methu?

Bydd darnau darllen ar y papur arholiad yn addas os oes disgyblion gwan yn sefyll y arholiad?

Cyfrifoldeb y bwrdd arholi fydd sicrhau bod cwestiynau ar bapurau arholiad yn hygyrch i'r ystod o ymgeiswyr. Bydd cyfleoedd i'r holl ymgeiswyr anelu at gyflawni graddau uwch. Ni fydd cyfyngu ymgeiswyr i gyrraedd gradd C yn unig, yn ôl y drefn gyfredol.

Arall

Beth am y disgyblion hynny sy'n cyrraedd yng nghanol blwyddyn 10 sy'n arfer dilyn y cwrs byr?

Mater i'r Siroedd a canolfannau unigol fydd sicrhau cefnogaeth ddigonol i ymgeiswyr sy'n dechrau astudio'r cwrs TGAU yn hwyrach na'r arfer yn ystod CA4.

Sut mae paratoi dysgwyr CA3 (plant bl8 presennol) ar gyfer hyn heb fanyleb?

Dylai'r sgiliau a'r profiadau a addysgir drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol baratoi disgyblion CA3 ar gyfer symud ymlaen i astudio ar gyfer cymhwyster TGAU Cymraeg ail iaith yn CA4. Disgwylir i'r fanyleb newydd gael ei hachredu a'i chyhoeddi yn ystod hanner tymor cyntaf tymor y gwanwyn 2017.

A fydd e'n bosib i ddisgyblion TGAU Cymraeg Ail iaith ddewis astudio TGAU Llenyddiaeth Cymraeg fel opsiwn? A fyddai'n bosib cynnwys y pwyntiau tuag at gyfanswm eu 9 pwnc gorau (threshold)?

Os yw'r gallu ieithyddol gan ymgeisydd astudio / sefyll arholiad TGAU Llenyddiaeth, yna dylid ystyried paratoi'r ymgeisydd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf).

Sut fedrwn ni ysgogi plentyn sydd ddim eisiau dysgu'r iaith o gwbl?

Her i'r canolfannau yw sicrhau bod dysgwr yn cael profiadau cadarnhaol wrth ddysgu a defnyddio'r iaith. Mae modd defnyddio gwasanaethau allanol megis Mentrau Iaith, yr Urdd, sefydliadau diwylliannol, llysgenhadon sydd wedi dysgu'r Gymraeg, cynrychiolwyr o weithleoedd dwy ieithog ayyb, er mwyn codi proffil a sicrhau bod dysgwyr yn deall gwerth dysgu'r iaith a'i bod yn sgil hanfodol.